



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, y Gweinidog Diwylliant,
Twristiaeth a Chwaraeon

BUCEGALIS

Medi 2018

 **Cadw**



Mae ein henebion diwydiannol yn dweud wrthym sut y gwnaeth Cymru helpu i lunio'r byd modern. Yma, ar Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, mae Big Pit, rhan o Amgueddfa Genedlaethol Cymru, sydd wedi'i leoli nepell o Waith Haearn Blaenafon Cadw.

© Hawlfraint y Goron (2018), Croeso Cymru

Cadw, Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000

E-bost: cadw@llyw.cymru

Gwefan: <http://cadw.llyw.cymru>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35767 ISBN digidol 978-1-78937-951-8 ISBN argraffu 978-1-78937-952-5

Clawr blaen: Castell a thref Cricieth yn edrych dros Fae Ceredigion tuag at Eryri.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Yr Arglwydd Elis-Thomas yng Nghastell y Bere, Gwynedd, yn lansio llyfryn newydd Cadw am gestyll arglwyddi a thywysogion Cymru.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

Mae Cymru fel cenedl wedi datblygu o etifeddiaeth ddiwylliannol a rannwyd dros filoedd o flynyddoedd. Fodd bynnag, ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, daeth ein cenedl i oed gyda'r setliad datganoli a nawr mae ganddi bwerau deddfu unwaith eto. Roedd yn briodol bod un o'r damau cyntaf o ddeddfwriaeth a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd hanesyddol yn well. O ganlyniad i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, mae gan Gymru, yn ôl sawl arsylwr yng Nghymru a thu hwnt, y ddeddfwriaeth fwyaf blaengar yn y Deyrnas Unedig ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Mae hyn yn bwysig. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adlewyrchiad ffisegol o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru; etifeddiaeth werthfawr y mae'n rhaid i ni ofalu amdani a'i throsglwyddo i'n plant er mwyn iddynt ei charu, ei thrysori a'i mwynhau.

Gellir darllen haenau'r hanes hwn yn ein tirweddau a'n trefluniau, ac yn yr adeiladau hanesyddol a'r henebion dirifedi sydd o'n cwmbras. Mae cestyll a henebion gwych Cymru'r oesoedd canol yn safleoedd cyfarwydd. Maent yn adrodd straeon arglwyddi a thywysogion arwrol Cymru, a straeon goruchafiaeth ac anhrefn wleidyddol. Mae henebion ein gorffennol mwy diweddar yn dweud wrthym sut y gwnaeth Cymru helpu i lunio'r byd modern. Gellir adrodd stori diwydiant ym Mlaenafon ac ar y draphont ddŵr wych ym Mhontcysyllte, sydd wedi'u cydnabod yn haeddiannol yn Safleoedd Treftadaeth y Byd. Ond mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn golygu bod y mannau rydym yn byw ac yn gweithio ynddynt yn arbennig; mae'n cyfrannu at y balchder mawr sydd gennym yn ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi. Mae gan y capel, sefydliad y gweithwyr, y parc lleol, a hyd yn oed y dafarn, yr ysgol a llond gwlad o gartrefi hanesyddol preifat le yng nghalon ein cymunedau, a straeon rhyfeddol i'w hadrodd am ein hynafiaid. Maent oll yn rhan o'r ymdeimlad unigryw o le sy'n bodoli ym mhob rhan o'n cenedl.

Mae llawer, llawer mwy yn gudd fel archaeoleg gladd. Weithiau, caiff ei datgelu'n drawiadol yn ystod gwaith datblygu newydd, fel y llong ganoloesol unigryw ar lannau afon Wysg yng Nghasnewydd. Eleni, o ganlyniad i'r haf sych, mae safleoedd archaeolegol newydd dirifedi wedi cael eu gweld o'r awyr fel olion crasu yng nghaeau ein tirwedd wledig. Mae'r darganfyddiadau newydd hyn yn dweud wrthym fod gennym gymaint yn fwy i'w ddysgu am y dreftadaeth werthfawr hon. Dyma daith ddarganfod rwyf am i bawb yng Nghymru ei rhannu.

Fodd bynnag, gall ein safleoedd hanesyddol wneud cyfraniad sy'n ymestyn y tu hwnt i'w gwerth i gymdeithas a'n gwybodaeth am y gorffennol. Maent hefyd yn asedau sy'n cyfrannu at fywiogrwydd economaidd Cymru. Maent yn gwneud cyfraniad sylweddol at dwristiaeth ac ymdrechion i hyrwyddo Cymru fel lle unigryw i fuddsoddi ynddo a lle arbennig iawn i fyw a gweithio ynddo.

Mae hyn yn fy arwain at brif themâu fy uchelgais ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn gyntaf, adeiladu ar y cynnydd gwych rydym wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth ofalu am ein safleoedd



Yn ystod hafau sych, megis haf 2018, mae ffotograffau o'r awyr yn datgelu safleoedd archaeolegol cladd megis y lloc hwn ym Mro Morgannwg.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

hanesyddol unigryw a sicrhau bod gennym y sgiliau drwy'r sector er mwyn helpu i'w gwarchod. Mae angen i ni hefyd helpu pobl i fwynhau a gwerthfawrogi ein safleoedd hanesyddol a'u hannog i gymryd rhan fwy gweithgar ac amlwg yn y broses o ofalu am ein treftadaeth. Yn olaf, sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at ein llesiant economaidd. Mae'r themâu hyn yn rhyngddibynnol. Ni allwn fanteisio ar werth economaidd ein treftadaeth os nad ydym yn gofalu amdani. Rhaid i ni nodi a diogelu'r safleoedd a'r tirweddau hanesyddol unigol hynny sy'n bwysig i ni ac integreiddio eu gwerth yn llawn mewn cynlluniau i adfywio ein cymunedau yn y dyfodol. Yn yr un modd, byddwn yn helpu i sicrhau y caiff safleoedd hanesyddol eu gwerthfawrogi'n fwy gan gymunedau cyfagos os gallwn ddangos hefyd eu bod yn gwneud cyfraniad go iawn at yr economi leol.

Nid yw gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol a'i werthfawrogi yn weithgaredd ymylol. Gall chwarae rôl allweddol wrth gyflawni amcanion ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'n cyfrannu at bedair thema'r strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, drwy helpu i greu cenedl fwy ffyniannus, gweithgar ac unedig sy'n dysgu. Gall helpu i ategu'r uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Economaidd drwy gydnabod y lleoedd arbennig sy'n ffurfio asgwrn cefn ein heconomiâu lleol. Ond yn fwy na dim, mae wrth wraidd ein nodau llesiant a'n hymdeimlad o falchder fel cenedl.



Capel Tegid, y Bala. Mae capeli wrth wraidd llawer o'n cymunedau.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol



Y gwaith cadwraeth diweddar ar y tŷ Tuduraidd yn Abaty Nedd.

© Hawlfraint y Goron (2018), Llywodraeth Cymru

Y man cychwyn i gyflawni ein huchelgeisiau yw gwarchod a diogelu ein hamgylchedd hanesyddol. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn garreg filltir o ran y ffordd rydym yn diogelu ac yn rheoli ein treftadaeth. Mae'n cynnwys elfennau nas gwelwyd o'r blaen yng Nghymru: statws statudol i'n cofnodion amgylchedd hanesyddol a rhestr statudol newydd o enwau lleoedd hanesyddol. Cyflwynodd bwerau newydd i ddiogelu safleoedd o bwys cenedlaethol a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli. Rwyf bellach am sicrhau bod darpariaethau'r Ddeddf yn cyflawni eu haddewid. Cyhoeddwyd canllawiau newydd eisoes i ategu'r Ddeddf, ac rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ganllawiau pellach ar y ffordd rydym yn rheoli newid i'n haddoldai rhestredig a'n henebion cofrestredig. Mae mwy ar y ffordd, gan gynnwys y ffordd rydym yn rheoli ein treftadaeth forol unigryw, a sut mae gwneud i'r cytundebau partneriaethau treftadaeth statudol newydd a'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol weithio'n ymarferol. Byddwn yn ymgynghori ar ddrafftiau o ddogfennau newydd yn ystod y misoedd nesaf.

Mae fy swyddogion yn Cadw yn gyfrifol am warchod y 130 o henebion yng ngofal y Wladwriaeth. Maent yn parhau i gasglu gwybodaeth fanwl am y blaenoriaethau ar gyfer gwarchod y casgliad cenedlaethol rhagorol hwn, ac rwyf wedi ymweld â'r gwaith sydd eisoes wedi dechrau ar raglen waith



Selio Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

© Hawlfraint y Goron (2018), Llywodraeth Cymru

uchelgeisiol, ond angenrheidiol, yng Nghastell Conwy, Castell Biwmares ac Abaty Nedd. Yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, caiff y rhaglen hon ei hehangu i gynnwys safleoedd eraill ar ystâd Cadw.

Rwy'n cydnabod hefyd mai perchenogion preifat, awdurdodau lleol yn ogystal â dwsinau o grwpiau gwirfoddol, sy'n aml yn rhan o gymunedau lleol, sy'n gofalu am y rhan fwyaf o adeiladau, parciau a gerddi hanesyddol a henebion. Mae swyddogion Cadw eisoes yn rhoi llawer o gyngor i'r rhai sy'n gwarchod ein treftadaeth. Roedd hi'n bleser gennyf aildechrau ein rhaglenni grant ar gyfer yr adeiladau hanesyddol hynny sy'n gwneud cyfraniad at eu cymunedau lleol, ac rwyf bellach wedi gofyn i Cadw ystyried ehangu ein cymorth i'r rhai sy'n gyfrifol am reoli ein henebion hynafol. Her arbennig fydd helpu ein cymuned ffermio i reoli safleoedd hanesyddol yn ein hardaloedd gwledig ar ôl i ni adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae angen i'r holl waith hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth dda am safleoedd hanesyddol. Erbyn hyn, gall y cyhoedd gael gafael ar fwy o wybodaeth am dreftadaeth nag erioed o'r blaen, gan fod gwybodaeth am ein safleoedd hanesyddol a ddiogelir, cofnodion amgylchedd hanesyddol, archifau treftadaeth, meysydd brwydr hanesyddol ac enwau lleoedd hanesyddol ar gael ar-lein. Ochr yn ochr â'r canllawiau newydd, mae hyn yn hanfodol os ydym am lwyddo i gyflawni ein cyfrifoldebau fel ceidwaid ein treftadaeth.

Mae cofebion rhyfel, megis y gofeb hon yn y Fenni, yn ganolbwynt teimladwy a phwysig mewn cymunedau i gofio'r rhai a fu farw wrth ymladd dros eu gwlad. Er mwyn coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, mae Cadw wedi rhoi cymorth grant i warchod a glanhau cofebion rhyfel.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Mae sgiliau'n bwysig



Mae rhaglen gadwraeth uchelgeisiol Cadw yn cynnwys atgyweirio simneiau Castell Coch.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae'r broses o ddiogelu a gwarchod ein hamgylchedd hanesyddol yn dibynnu ar ddealltwriaeth o'i briodweddau arbennig a set o sgiliau crefft cadwraeth penodol. Adeiladwyd o leiaf draean o'r holl adeiladau yng Nghymru gan ddefnyddio dulliau adeiladu traddodiadol. Mae'n hollbwysig bod gennym y sgiliau cywir i'w gwarchod, eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw. Rydym yn byw, yn gweithio, yn siopa ac yn treulio ein hamser hamdden yn yr adeiladau hyn, ac maent yn hanfodol i'n seilwaith a'n rhwydweithiau trafnidiaeth.

Er hynny, mae ymyriadau â bwriadau da, ond amhriodol, megis defnyddio deunyddiau a thechnegau modern anghydnaws, yn golygu bod adeiladau hanesyddol yn agored i niwed. Y rheswm am hyn yw bod y ddealltwriaeth a'r sgiliau arbennig sydd eu hangen i gynnal a chadw, gwarchod ac atgyweirio'r adeiladau hyn, a'u cynnal ar gyfer y dyfodol, wedi'u diystyru am gyfnod rhy hir mewn hyfforddiant adeiladu.

Rwy'n bwriadu cefnogi camau i feithrin y ddealltwriaeth honno a datblygu'r sail sgiliau ymarferol. Er mwyn gwneud hyn, bydd yn rhaid 'prif-ffrydio' sgiliau crefft treftadaeth yn y diwydiant adeiladu ehangach



Mae cadwraeth yn dibynnu ar sgiliau crefft traddodiadol. Yma, mae saer maen o Cadw yn ailbwyntio gwaith maen hanesyddol yn ofalus yn Llys yr Esgob Tyddewi.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

a'r cwricwlwm sgiliau. Mae enghreifftiau sefydledig i'w gweld eisoes megis Canolfan Tywi yn Sir Gaerfyrddin. Mae tîm bach ond profiadol Cadw o grefftwyr treftadaeth hefyd mewn sefyllfa i osod esiampl i'r sector drwy dynnu sylw at arfer gorau. Rwy'n falch hefyd o'r partneriaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu. Yn ddiweddar, lansiays y prosiect Adeiladu Treftadaeth yng Nghymru yn Sioe Frenhinol Cymru 2018. Bydd y fenter hon yn cynnal cyfres o weithgareddau hyfforddiant, addysg a rhwydweithio ac yn denu newydd-ddyfodiaid i'r maes adeiladu treftadaeth. Bydd hefyd yn helpu contractwyr treftadaeth i gymhwyso eu gweithlu drwy asesiadau a hyfforddiant ar y safle. Mae'r gwaith hwn yn ategu'r Bartneriaeth Sgiliau Strategol a sefydlwyd eisoes rhwng Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu, Cadw, Historic Environment Scotland a Historic England.

Wrth gwrs, mae sgiliau treftadaeth yn ymestyn y tu hwnt i sgiliau crefft cadwraeth penodol, ac rwy'n falch bod y bartneriaeth strategol newydd rhwng y pedwar corff treftadaeth cenedlaethol yng Nghymru yn ystyried datblygu cynllun gweithlu sector yn ofalus. Byddai'n dda gennyf pe bai'r cynllun hwn yn ystyried sut y gellir rhoi mwy o gyfleoedd i gael profiad gwaith, ymgymryd â lleoliadau a phrentisiaethau a hefyd annog darparwyr addysg i ddatblygu cynnwys cyrsiau sy'n adlewyrchu anghenion y sector treftadaeth yng Nghymru.



Gwaith cadwraeth arbenigol ar simneiau'r Gorthwr yng Nghastell Coch.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Trysori a mwynhau ein hamgylchedd hanesyddol



Hwyl i'r teulu yng Nghastell Cas-gwent.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae pont newydd a deunydd dehongli newydd yng Nghastell Harlech yn golygu bod y safle yn fwy hygyrch yn gorfforol ac yn ddeallusol.

Llun gan Geraint Roberts a DarntonB3

Rwyf am annog llawer mwy o bobl i werthfawrogi ein hamgylchedd hanesyddol ac ymweld â'n safleoedd a'n lleoedd hanesyddol. Mewn rhai achosion, mae angen newid agwedd i wneud hyn. Mae angen i ni chwalo rhai o'r rhwystrau a allai beri i bobl beidio ag ymweld â'n safleoedd, ac annog pobl i ymddiddori mewn treftadaeth. Wrth gwrs, un rhwystr yw'r gost. Yn ystod 2016/17, ymwelodd dros 1.4 miliwn o bobl â 24 o safleoedd Cadw sydd wedi'u staffio. O'r rhain, ymwelodd 547,945 â'r safleoedd am ddim. Amcangyfrifir bod miliwn arall wedi ymweld â 106 o safleoedd Cadw sydd heb eu staffio ac nad oes tâl mynediad iddynt.

Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy i annog ymwelwyr ifanc. Rydym wedi lleihau'r tâl mynediad i henebion Cadw ar gyfer y rhai dan 16 oed yn ddiweddar, ac mae ymweliadau addysgol yn dal i fod yn rhad ac am ddim pan gânt eu trefnu ymlaen llaw. Ond, hoffwn nawr weld mwy o weithgareddau teuluol yn henebion Cadw a deunydd dehongli diddorol sy'n rhoi mwy o gyfleoedd i ymchwilio i'n hanes a'i ddathlu, fel y gwnaethom yng Nghaerffili.

Rwyf hefyd yn ymwybodol bod ein treftadaeth yn perthyn i bawb yng Nghymru, beth bynnag fo'u cefndir. Os ydym am chwalo'r rhwystrau o ddifrif, mae angen i'r straeon rydym yn eu hadrodd ar ein safleoedd fod yn fwy hygyrch, perthnasol a difyr. Mae angen i ni adrodd straeon pobl y gorffennol y gall pawb uniaethu â nhw.



Mae Castell Caergwrle, y castell olaf a adeiladwyd gan dywysog Cymreig brodorol, yn rhan allweddol o'n stori genedlaethol, ac mae'n cael ei roi yng ngofal Cadw.

○ gasgliadau Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru:
© Hawlfraint: Paul R. Davis



Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgarwch cloddio ym Mlaenrhondda er mwyn deall mwy am ein 'treftadaeth ddisylw'.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Hefyd, mae angen i ni barhau i wella mynediad i'r rhai â phroblemau symud cymaint â phosibl. Rydym wedi gwneud cynnydd gwych gyda'r pontydd mynediad yng nghestyll Caernarfon a Harlech. Rwyf bellach am adeiladu ar hyn drwy wella mynediad at lefelau uwch rhai o'n cestyll, megis Caernarfon, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n gydnaws â'u cymeriad hanesyddol. Gan edrych y tu hwnt i'w safleoedd ei hun, rwyf wedi gofyn i Cadw ailystyried y canllawiau ar fynediad hawdd i bawb i bob adeilad hanesyddol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r farn ddiweddaraf. Hefyd, mae mynediad at safleoedd Cadw yn dechrau ymhell cyn i ymwelwyr gyrraedd y fynedfa. Rwyf bellach wedi gofyn am adolygiad o'r ffordd y mae ymwelwyr yn teithio i henebion Cadw, p'un ai ar y ffyrdd neu drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried arwyddion, parcio, llwybrau cerdded a darpariaeth seiclo.

Mae safleoedd Cadw yn gasgliad gwirioneddol wych, ac maent yn rhoi cyfle unigryw i arddangos y dreftadaeth sydd gennym i'w chynnig fel cenedl. Gallant osod yr esiampl a all drawsnewid agweddau. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ymwybodol bod llawer o safleoedd gwych yn cael eu rheoli gan eraill, yn aml ar eu pen eu hunain. Hoffwn weld Cadw yn ehangu ei rôl drwy weithio gyda'r partneriaid eraill hyn a helpu i gydgysylltu ein stori a'n cynnig treftadaeth yn gyffredinol.

Ac mae gennym straeon gwirioneddol wych i'w hadrodd am hanes Cymru, o'n gwreiddiau cynhanesyddol i'r hyn a greodd y Gymru fodern. Fodd bynnag, mae rhywfaint o hyn yn cael ei anghofio'n rhy aml. Rwy'n teimlo'n angerddol am adennill 'perchenogaeth' dros y dreftadaeth hon. Er enghraifft, rwyf am i Cadw adrodd hanesion arglwyddi a thywysogion mawr Cymru yn ogystal â straeon y dynion a'r merched dienw ac anghyfarwydd a greodd y genedl sy'n bodoli heddiw. Gyda balchder mawr, anogais gamau i roi'r castell olaf a adeiladwyd gan dywysog Cymreig brodorol, Castell Caergwrle, yng ngofal y Wladwriaeth a chyhoeddi llyfryn am gestyll arglwyddi a thywysogion Cymru. Ond rwyf bellach yn awyddus i adfywio rhywfaint o'n deunydd dehongli, er enghraifft, yng nghastell gwych Llywelyn ap Iorwerth yng Nghastell y Bere, drwy adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes yng Nghastell Cricieth.

Yn olaf, i werthfawrogi, deall a thrysori ein hamgylchedd hanesyddol yn llawn, mae angen cyfrannu'n fwy at y penderfyniadau sy'n effeithio ar ei ddyfodol a'r camau ymarferol i ymchwilio i'n safleoedd hanesyddol a'u gwarchod. Flwyddyn nesaf, byddwn yn dathlu Blwyddyn Darganfod, sy'n rhoi cyfle i annog ymchwil ac ysgolheictod newydd, yn ogystal â chynyddu cyfranogiad y cyhoedd fel y gall cynifer o bobl â phosibl rannu'r cyffro sydd ynghlwm wrth ddarganfyddiadau newydd. Mae hyn yn bwysig nid yn unig oherwydd y cyfraniad y gall hyn ei wneud at ffyrdd iach ac egniol o fyw, ond hefyd at iechyd meddwl a llesiant.

Mae gan gannoedd o sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru rôl dreftadaeth eisoes, ac mae angen i ni fanteisio ar yr adnodd hwn o wirfoddolwyr posibl. Un enghraifft dda yw Drysau Agored, sy'n dathlu llawer o drysorau treftadaeth cudd y gall y cyhoedd ymweld â nhw bob mis Medi gyda chymorth grwpiau gwirfoddol lleol. Gyda chymorth cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ffurfiwyd partneriaeth arall er mwyn helpu pobl ifanc i ddatblygu prosiectau ac ymchwilio i'n 'treftadaeth ddisylw' – treftadaeth y gorffennol diweddar y mae pobl yn ei hesgeuluso neu nad ydynt yn ei deall, er ei bod yn aml ar garreg ein drws. Rwy'n gobeithio y bydd y prosiect hwn yn ysgogi mwy o raglenni treftadaeth arloesol a gaiff eu harwain gan gymunedau. Ac, yn sicr, mae angen i ni feddwl yn ddi-ofn ac yn arloesol am ddyfodol y strwythurau sy'n ein hatgoffa o'n gorffennol diwydiannol cyfoethog. Mae hyn yn ein hatgoffa bod gwerthfawrogi'r amgylchedd hanesyddol yn golygu mwy nag ymweld â safleoedd hanesyddol; mae'n golygu deall a gwerthfawrogi cymeriad hanesyddol y lleoedd o'n hamgylch yn ein bywydau bob dydd hefyd.

Sicrhau bod ein hamgylchedd hanesyddol yn gweithio er ein llesiant economaidd



Mae gan bob lle ei gymeriad unigryw ei hun y gellir ei ddefnyddio fel sail i wella llesiant economaidd. Mae treflun a chastell Aberteifi wedi elwa o gymorth grant sylweddol sydd wedi ailfywiogi'r dref fel lle i fyw a gweithio ynddo, yn ogystal â lle i ymweld ag ef.

© Hawlfraint y Goron (2018), Croeso Cymru



Bydd buddsoddi ymhellach yng Nghastell Caerffili o fudd i'r gymuned leol ac yn gwella profiad ymwelwyr.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Cymru. Yn 2016, amcangyfrifwyd ei fod yn cyfrannu £963 miliwn y flwyddyn at economi Cymru ac yn cefnogi dros 40,500 o swyddi yn y sector treftadaeth, y sector twristiaeth treftadaeth a'r diwydiant adeiladu treftadaeth. Mae ei werth i dwristiaeth yn amlwg; mae 61 y cant o'r rhai sy'n ymweld â Chymru o dramor yn dweud eu bod yn gwneud hynny'n benodol er mwyn gweld adeiladau hanesyddol a henebion hynafol.

Ond mae gwerth economaidd ein hamgylchedd hanesyddol yn ddwysach na hyn. Mae'n cyfrannu at ansawdd a ffyniant y lleoedd rydym yn byw ac yn gweithio ynddynt. Er bod ei werth llawn yn anodd ei fesur, mae effaith atyniadau treftadaeth mawr mewn trefi megis Conwy yn glir i bawb. Yn fy mam i, gallwn wneud llawer mwy mewn lleoliadau eraill megis Caernarfon a Chaerffili, lle mae'r cestyll eiconig yn rhoi llawer o gyfleoedd i aildanio economi'r cymunedau cyfagos. Mae gwaith Cadw i gynyddu nifer yr ymwelwyr a'i incwm yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy ymgyrchoedd



Mae niferoedd ymwelwyr Cadw wedi cynyddu o ganlyniad i'r ymgyrch farchnata lwyddiannus a ddenodd deulu o ddreigiau i safleoedd ledled Cymru.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

marchnata llwyddiannus, deunydd dehongli newydd a chyfleusterau gwell i ymwelwyr yn ei henebion wedi gwneud argraff arnaf. Ond mae angen i ni adeiladu ar hynny nawr drwy fuddsoddi hyd yn oed yn fwy. Roeddwn yn falch o gyhoeddi'n ddiweddar y bydd Llywodraeth Cymru yn gwario £9.4 miliwn dros y tair blynedd nesaf i wella profiad ymwelwyr yn safleoedd Cadw ledled Cymru ymhellach. Mae'r atyniadau a agorwyd yn ddiweddar yng Nghastell Caerffili wedi bod yn boblogaidd iawn, ac rydym nawr yn bwriadu gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod castell mwyaf Cymru yn gyrchfan o'r radd flaenaf i ymwelwyr.

Wrth gwrs, nid oes gan bob un o'n cymunedau gestyll i ddenu buddsoddiad o'r tu allan. Fodd bynnag, mae gan bob un ohonynt nodweddion hanesyddol unigryw sy'n adrodd stori ein gorffennol pell a mwy diweddar. Yn aml, mae'r rhain yn adrodd stori leol neu ranbarthol; stori am byllau glo, gweithfeydd haearn, chwareli llechi neu amaethyddiaeth, a'r gwerthoedd cymunedol a ddatblygodd, ac sy'n bodoli o hyd, oherwydd y diwydiannau hyn. Mae adfywiad Blaenafon o ganlyniad i'w statws fel Safle Treftadaeth y Byd yn enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni. Mae angen i ni wneud hyn mewn mannau eraill, a byddwn yn cefnogi Cyngor Gwynedd wrth iddo geisio statws Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer tirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru. Gall ein treftadaeth wneud llawer i hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd ac, yn benodol, drwy'r hunaniaeth drawiadol y mae wedi'i rhoi i'n rhanbarthau. Dyma brif themâu ein Cynllun Gweithredu Economaidd. Gall gwarchod, gwella a dathlu ein safleoedd a'n tirweddau hanesyddol gyfrannu at leoedd trawiadol a chymunedau gwydn; gallant ddenu buddsoddiad o'r tu allan a chyflogaeth, a gallant greu lleoedd deniadol i fyw, dysgu, gweithio a buddsoddi ynddynt.



Mae'r gwaith o adfywio Ynys y Barri wedi canolbwyntio ar lan y môr, gan gynnwys y cysgodfeydd a'r morglawdd hanesyddol, sy'n dathlu'r trip glan môr traddodiadol.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth



Mae Castell a Pharc Dinefwr, gan gynnwys Tŷ Newton, yn cael eu rheoli drwy bartneriaeth lwyddiannus rhwng Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru



Mae cyllid gan nifer o bartneriaid a noddwyr, gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Cadw, wedi galluogi The Landmark Trust i adnewyddu Llwyn Celyn. Mae gan y tŷ prin hwn o'r bymthegfed ganrif ddyfodol cynaliadwy bellach drwy ddefnydd cymunedol a masnachol.

Llun gan The Landmark Trust

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o lwyddiannau sector yr amgylchedd hanesyddol wedi bod yn seiliedig ar bartneriaethau effeithiol. Enghraifft ragorol yw'r rôl sylweddol y gwnaeth partneriaid ei chwarae yn y broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd a'r cyngor a'r canllawiau cysylltiedig. Roeddwn yn falch iawn o ddarllen y sylw a wnaed gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn dilyn ei ymchwiliad diweddar i'r amgylchedd hanesyddol bod llawer o randdeiliaid o'r fam bod Cadw yn bartner sy'n barod i helpu ac y gellir ymddiried ynddo.

Mae awdurdodau lleol Cymru yn gweithio ar y rheng flaen i gyflawni cynifer o'n huchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Maent yn ganolog i'r gwaith o ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol yn lleol, ac adfywio a chreu lleoedd. Fodd bynnag, maent hefyd yn wynebu pwysau ariannol, a hoffwn annog awdurdodau i gydweithio a rhannu profiadau yn fwy. Mae awdurdodau yn y gogledd eisoes wedi gwneud cynnydd pwysig, a hoffwn weld y syniadau hyn yn cael eu rhannu ledled Cymru.

Ar lefel genedlaethol, mae'r bartneriaeth strategol newydd rhwng Cadw a'r tri sefydliad treftadaeth cenedlaethol arall yng Nghymru (Comisiwn



Mae Treftadaeth Ddisylw, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, yn brosiect partneriaeth rhwng ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, Cadw a'r Comisiwn Brenhinol i ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru, tanio eu brwdfrydedd a'u hysbrydoli i ymddiddori yn eu treftadaeth leol.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru

Brenhinol Henebion Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru) yn rhoi cyfle gwirioneddol i rannu sgiliau a phrofiad masnachol, ac rwy'n edrych ymlaen at gael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd. Bydd trefniadau llywodraethu newydd Cadw yn cynorthwyo â hyn, wrth i fwrdd mewnol newydd gael ei sefydlu yn ystod y misoedd nesaf. Bydd hyn yn rhoi mwy o gymorth gweithredol ac yn galluogi Cadw i weithredu'n fwy effeithiol ochr yn ochr â'i bartneriaid yn yr amgylchedd masnachol. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad a wnaed yn ddiweddar i gadw Cadw o fewn y llywodraeth yn golygu y bydd hefyd yn gallu manteisio'n llawn ar y cysylltiadau polisi drwy'r llywodraeth sy'n hanfodol er mwyn i'r amgylchedd hanesyddol gyfrannu at yr uchelgeisiau ehangach a nodwyd yn Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu Economaidd. Mae'n rhy hawdd i dreftadaeth fod yn ôl-ystyriaeth os na chaiff ei hymgorffori'n gadarn yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno polisi 'prif ffrwd'.

Y tu hwnt i'r llywodraeth, mae'r sector eisoes wedi dangos gwerth partneriaeth drwy Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol, sydd wedi gwneud gwaith amhrisiadwy wrth i'r sector wynebu heriau'r dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd a goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd. Byddaf yn parhau i annog Cadw i rannu profiadau gyda sefydliadau yn y trydydd sector a phartneriaid cyllido, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid cyflawni, gan gynnwys Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, sydd wedi gwneud cymaint i wella ein dealltwriaeth o'r gorffennol, cael gafael ar wybodaeth ac annog pobl i gyfranogi. Partneriaeth arall sydd eisoes yn dangos ei gwerth yw Fforwm Addoldai Cymru, sy'n helpu i fynd i'r afael ag un o ganlyniadau'r lleihad mewn cynulleidfaoedd crefyddol: y ffaith bod nifer gynyddol o gapeli ac eglwysi, a oedd unwaith wrth wraidd llawer o'n cymunedau, bellach yn segru.



Mae'r injan drawst Gernywaidd yn Chwarel Dorothea, Nantlle, yn ein hatgoffa o'r rheswm pam mae diwydiant llechi gogledd-orllewin Cymru yn haeddu cael ei enwebu ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y cais hwn.

© Hawlfraint y Goron (2018), Croeso Cymru

Casgliad



Siambwr gladdu Pentre Ifan yn Sir Benfro oedd un o'r tair heneb yng Nghymru i gael eu diogelu drwy'r ddeddfwriaeth amgylchedd hanesyddol gyntaf yn 1882.

© Hawlfraint y Goron (2018), Croeso Cymru

Mae sector yr amgylchedd hanesyddol yn wynebu cyfnod anodd oherwydd pwysau ariannol a'r holl ansicrwydd yn y dyfodol. Ond, mae'n gyfnod cyffrous hefyd. Mae'r ffaith ein bod wedi cyflawni cymaint dros y blynyddoedd diwethaf yn brawf o'r partneriaethau llwyddiannus y mae Llywodraeth Cymru, drwy Cadw, wedi'u sefydlu gydag ystod eang o randdeiliaid.

Mae cyfle go iawn bellach i'n treftadaeth ragorol fod yn ganolog i'n llesiant yn y dyfodol. Mae treftadaeth yn cyfrannu cymaint at gynifer o'n nodau: ffordd iach ac egniol o fyw, ein bywiogrwydd economaidd, cyfleoedd dysgu gydol oes a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau, amgylchedd cynaliadwy a chymunedau gwydn. Ac, wrth gwrs, gan ddychwelyd i'r hyn a ddywedais ar y dechrau, mae'r amgylchedd hanesyddol wrth wraidd ein hunaniaeth ddiwylliannol fel cenedl. Mae'n adrodd hanes lle Cymru yn y byd, o'i dechrau cynnar i'w rôl wrth wraidd datblygiad y byd modern.



Castell Dolbadarn, Gwynedd, a adeiladwyd gan y Tywysog Llywelyn ap Iorwerth yn ystod blynyddoedd cynnar y drydedd ganrif ar ddeg.

© Hawlfraint y Goron (2018), Cadw, Llywodraeth Cymru